



Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Fframwaith Gweithredu

2013-2017

Crynodeb



Sicrhau newid i bobl hŷn yng Nghymru

Fel Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, rwyf yn llais annibynnol ac yn eiriolwr i bobl hŷn, yn sefyll yn gefn iddynt ac yn siarad ar eu rhan. Rwyf yn gweithio i sicrhau y caiff lleisiau pobl hŷn eu clywed ac yr ymdrinnir â'r materion sy'n bwysig iddynt. Fy ngwaith i yw sicrhau newid gwirioneddol ym mywydau pobl hŷn, a dylanwadu ar y newid hwnnw.

Pan ddechreuais y swydd ym mis Mehefin 2012, un o'm blaenoriaethau oedd cwrdd â phobl hŷn o bob math o gefndiroedd yng Nghymru a siarad â hwy, a byddaf yn parhau i wneud hynny tra byddaf yn y swydd. Ar sail eu lleisiau hwy, a lleisiau'r rheiny sy'n gofalu amdanynt ac yn eu cynorthwyo, y lluniais flaenoriaethau fy Fframwaith Gweithredu pedair blynedd. Dyma'r newid y mae pobl hŷn am ei weld ac y mae angen iddynt ei weld.

Ni fydd yn hawdd sicrhau'r newid hwn. Bydd yn rhaid i bob un ohonom wneud ein gorau, meddwl ac ymddwyn yn wahanol, a bod yn ddewr ac yn feiddgar. Mae angen i ni fod yn uchelgeisiol, nid dim ond dros bobl hŷn heddiw, ond dros y cenedlaethau iau a ddaw wedyn.

Amlinellir yn glir yn fy Fframwaith Gweithredu fy mlaenoriaethau, y newidiadau y disgwyliaf eu gweld yng Nghymru a sut y byddaf yn bwrw ymlaen â gwelliannau i fywydau pobl hŷn dros y pedair blynedd nesaf, i helpu i wneud Cymru'n lle da i dyfu'n hŷn – nid dim ond i rai, ond i bawb.

Bywyd gwerthfawr, ystyrlon a llawn pwrpas

Mae pobl hŷn wedi dweud wrthyf fod eu bywydau'n werthfawr, yn ystyrlon ac yn llawn pwrpas pan fyddant:

Yn teimlo'n ddiogel a bod pobl yn gwrandao arnynt, yn eu gwerthfawrogi ac yn eu parchu;

Yn gallu cael y cymorth sydd ei angen arnynt, pan fydd ei angen arnynt, yn y ffordd y mae ei eisiau arnynt;

Yn byw mewn lle sy'n addas iddynt ac i'w bywydau;

Yn gallu gwneud y pethau sy'n bwysig iddynt.

Mae pobl hŷn yn dweud yn glir iawn hefyd fod arnynt eisiau llais cryf a rheolaeth ystyrlon dros eu bywydau, yn enwedig o ran y ffordd y cânt gefnogaeth a chymorth. Mae'r graddau y mae hyn yn digwydd yn effeithio'n uniongyrchol ar ansawdd eu bywydau ac, yn aml iawn, mae'n golygu bod gwasanaethau'n cael mwy o effaith a bod cost y gwasanaethau hynny'n llai i'r pwrs cyhoeddus.

Mae'n rhaid i ni gydnabod bod pobl hŷn i gyd yn wahanol ac na ellir eu rhoi mewn categorïau penodol. Rhaid i wasanaethau cyhoeddus gydnabod anghenion POB person hŷn ac ymateb i'w hanghenion penodol yn briodol er mwyn sicrhau na fydd unrhyw un yn methu â chael gafael ar y cymorth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

Fy mlaenoriaethau dros y pedair blynedd nesaf

Rwyf wedi defnyddio lleisiau cryf, cyson a chlir pobl hŷn i ddatblygu'r pum blaenoriaeth yn fy Fframwaith Gweithredu. Bydd y newid y disgwyliaf ei weld o dan bob blaenoriaeth yn effeithio'n uniongyrchol ar ansawdd bywyd pobl hŷn.

Blaenoriaeth un: Sicrhau bod lles pobl hŷn wrth wraidd gwasanaethau cyhoeddus

.....

Blaenoriaeth dau: Gwella ansawdd iechyd a gofal cymdeithasol, a sicrhau eu bod ar gael yn rhwyddach

.....

Blaenoriaeth tri: Diogelu a gwella gwasanaethau, cyfleusterau a seilwaith cymunedol

.....

Blaenoriaeth pedwar: Sefyll yn gefn i bobl hŷn y mae perygl y gallent gael niwed a sicrhau y cânt eu diogelu a'u hamddiffyn

.....

Blaenoriaeth pump: Mynd i'r afael â rhagfarn, anghydraddoldeb a gwahaniaethu

Sut fydda i'n gwybod a yw pethau wedi newid?

Byddaf yn defnyddio amryw o ddulliau i gael gwybod a yw pethau wedi newid dros bedair blynedd y fframwaith hwn. Yn eu plith mae:

- Parhau i deithio i bob cwr o Gymru i gwrdd â phobl hŷn a'r rhai sy'n gofalu amdanynt ac yn eu cynorthwyo, a siarad â hwy i gael gwybod beth sydd fwyaf pwysig iddynt.
- Defnyddio ystod eang o waith ymchwil, adroddiadau ac astudiaethau cyfredol i ategu fy ngwaith.
- Defnyddio ystod eang o waith ymchwil, adroddiadau ac astudiaethau cyfredol i ategu fy ngwaith.
- Cynnal arolygon ac arolygon barn lle mae bylchau yn y wybodaeth sydd ar gael.
- Cynnal sesiynau trafod â phobl hŷn a defnyddio'u lleisiau i ddod i ddeall yn well sut brofiad yw tyfu'n hŷn yng Nghymru.

Lleisiau pobl hŷn fydd yn profi yn y pen draw pa mor effeithiol yw ein gwasanaethau cyhoeddus ac a yw'r newid y mae arnynt eisiau ac angen ei weld yn digwydd, ac felly y dylai fod.

I gael gwybod mwy

I gael gwybod mwy am y gwaith rydym yn ei wneud:

- Mae ein Fframwaith Gweithredu manwl ar ein gwefan www.olderpeoplewales.com
- I gael y wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd gallwch drefnu i dderbyn ein newyddlen drwy ffonio 08442 640670 neu anfon ebost at gofyn@olderpeoplewales.com gan nodi 'Newyddlen' yn bwnc
- Gallwch ein dilyn, a'r rheiny sy'n siarad amdanom, ar Twitter. Chwiliwch am [@comisiwnphcymru](https://twitter.com/comisiwnphcymru)

Cysylltu â ni

Ysgrifennwch atom:

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FL

Ffôn: 08442 640670 (rhif cyfradd leol)

Ebost: gofyn@olderpeoplewales.com

Trydar: [@comisiwnphcymru](https://twitter.com/comisiwnphcymru)

Gwefan: www.olderpeoplewales.com